| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Sesiwn Friffio'r Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 7 Hydref 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Prif Reolwr Refeniw, Budd-daliadau a Chontractau / Rheolwr Ansawdd a Pherfformiad / / Rheolwr Darparu Gwasanaeth |
| **Teitl:** | Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi / Eiddo Gwag Hirdymor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Polisi'r cyngor ar gyfer codi premiwm treth y cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, gan gynnwys paratoadau ar gyfer adolygu'r polisi fel y gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ym mis Medi 2023, gosododd y cyngor bolisi codi tâl a oedd yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am eich cadarnhad i'r polisi yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd (2025/26).

2.2 ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i adolygu'r polisi codi tâl ar gyfer 2026/27 gyda'r amserlenni arfaethedig a nodir yn 4.5

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi a chymeradwyo polisi codi tâl y cyngor ar gyfer 1 Ebrill 2025 fel y nodir ym mharagraff 4.1.

3.2 Ystyried a chymeradwyo'r amserlen arfaethedig a nodir yn y papur hwn ar gyfer adolygu'r polisi ar gyfer 2026/27.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar 5 Medi 2023 yn y Cyngor Llawn, cymeradwywyd y polisi codi tâl Premiwm Cartrefi Gwag ac Ail Gartrefi Hirdymor ar gyfer 2024/25 a 2025/26. Cadarnhawyd y taliadau y cytunwyd arnynt:

**O 1 Ebrill 2024 ymlaen**

- 100% dros dâl safonol Treth y Cyngor o fis Ebrill 2024 ar gyfer yr holl Ail Gartrefi ac eiddo Gwag Hirdymor, sydd wedi bod yn wag ers llai na 5 mlynedd ac
- 50% ychwanegol ar eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy

**O 1 Ebrill 2025 ymlaen:**

- 150% dros dâl safonol Treth y Cyngor o fis Ebrill 2025 ar gyfer yr holl Ail Gartrefi ac eiddo Gwag Hirdymor,sydd wedi bod yn wag ers llai na 5 mlynedd ac:
- 50% ychwanegol ar eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy

Bwriad y penderfyniad i ddatblygu polisi codi tâl dwy flynedd oedd rhoi elfen o sicrwydd ariannol i’r trethdalwyr yr effeithir arnynt gan y premiwm.

4.2 Nid oedd y polisi'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen ac felly mae angen dechrau cynllunio adolygiad i ddeall effaith y polisi presennol er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol.

4.3 Rydym yn cynnig dadansoddi gwybodaeth reoli a chymharu data a pholisi gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu unrhyw adborth a dderbyniwyd a pholisïau/eithriadau dewisol sydd wedi’u datblygu mewn mannau eraill i gefnogi grwpiau penodol e.e. Prynwyr Tro Cyntaf.

4.4 Rydym wedi datblygu cynllun gweithredol gyda cherrig milltir allweddol yn cyd-fynd â'r llinellau amser yn adran 4.5. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i gasglu naw mis o ddata ar effaith cynnydd premiwm 2024/25 ar gyfer adolygiad y Cabinet.

4.5 Bydd cyfathrebu ag Aelodau cyn dechrau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.

| **Terfynau Amser** | |
|---|---|
| 3 Mawrth 2025 | Cyflwyno canlyniad dadansoddiad data 2024/25 a chynigion i sesiwn friffio'r Cabinet. |
| 26 Mawrth 2025 | Hysbysiad o ymgynghoriad cyhoeddus ymlaen llaw i'r Uwch Dîm Arwain/Cynghorwyr/Aelodau/Partneriaid Allweddol |
| 28 Mawrth | Datganiad i'r Wasg/ Cyfryngau Cymdeithasol/ Llythyr i Berchnogion Tai Gwag ac Ail Gartrefi a nodwyd. |
| 3 Ebrill i 2 Mai 2025 | Ymgynghoriad cyhoeddus |
| 26 Mehefin 2025 | Cyflwyno cynigion a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. |
| 7 Gorffennaf 2025 | Cyflwyno adroddiad canlyniad ac Asesiad o'r Effaith ar Les i Sesiwn Friffio'r Cabinet. |
| 29 Gorffennaf 2025 | Cyflwyno adroddiad canlyniad ac Asesiad o'r Effaith ar Les i'r Cabinet. |
| 9 Medi 2025 | Cyflwyno adroddiad canlyniad a chynnig ar gyfer 2026/27 ac ymlaen i'r Cyngor Llawn. |

Sylwch, yn y Cyngor llawn ym mis Medi 2023, y pasiwyd y penderfyniad canlynol mewn perthynas ag incwm a gynhyrchir gan y premiwm -

*(vi) bod yr arian ychwanegol a gynhyrchir gan y cynnig hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer cymunedau lleol, amwynderau ac i fynd i'r afael â digartrefedd*

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Pwrpas y premiwm yw cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych a chynnal a meithrin cymunedau cynaliadwy. Ni fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith ar ymdrechion y Cyngor i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd cynyddu'r premiwm yn effeithio ar adnoddau staff, gan arwain at fwy o ymgysylltu â chwsmeriaid ac apeliadau i dîm treth y cyngor. Bydd angen i'r arolygydd eiddo gynnal mwy o ymweliadau i leihau twyll ac osgoi treth. Fodd bynnag, bydd codi canran y premiwm yn cynhyrchu refeniw ychwanegol, gan gefnogi nod y Tîm Tai Gwag i leihau eiddo gwag hirdymor ac effeithio'n gadarnhaol ar ymdrechion Atal Digartrefedd. Bydd unrhyw anghenion adnoddau ychwanegol ar gyfer y tîm Refeniw yn cael sylw yn adroddiad Gwanwyn 2025.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar les fel rhan o'r ymgynghoriad blaenorol ym mis Gorffennaf 2023. Cynigir y bydd un arall yn cael ei gynnal cyn mynd â hwn yn ôl i'r cabinet ym mis Mehefin 2025.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliodd yr awdurdod ymgynghoriad cyhoeddus yn flaenorol ym mis Mai 2023 a byddai'n cynnig ei ailadrodd ym mis Ebrill 2025. Mae gennym gynlluniau i ymgysylltu â'r broses graffu ym mis Mehefin 2025.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'n briodol bod y cyngor yn ailgadarnhau'r sefyllfa o ran premiymau treth y cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor ar gyfer 2025/26. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth trigolion a'r rhai yr effeithir arnynt. Mae angen dechrau cynllunio i adolygu'r polisi wrth symud ymlaen yn seiliedig ar dystiolaeth o'r effaith y mae'r polisi wedi'i gael o ran newid ymddygiad ac ati hyd yma.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gallai risg o amrywio cyfradd y premiwm ar y cam hwn cyn gwerthusiad llawn o'r cynnydd presennol gael effaith negyddol bosibl ar yr awdurdod, y diwydiant twristiaeth, ac effaith ariannol andwyol ar unigolion.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- *Deddf Tai (Cymru) 2014*
- *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) Cymru 2015*
- *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiannir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022*